

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 20 GORFFENNAF 2018

Yn Cynghorydd (Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Goddard, Jacobsen a/ac Murphy

1 : DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

2 : CAIS AM GRANT TRWYDDED EIDDO - BUZZING BEE, HEOL YR
EGLWYS FAIR

Ymgeiswyr: Mandeep Singh a Saiprasad Kamuni

Awdurdod Cyfrifol: Rhys Morgan, Trwyddedu

Ymgeiswyr

Daeth cais am Drwydded Safle i law gan Beelzebub Bars Ltd mewn perthynas â Buzzing Bee, 4 Heol yr Eglwys Fair, Caerdydd.

Ymgeisiodd yr ymgeisydd am y canlynol:

(1) Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle.
2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do).
3. Darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do)

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

“Rydym yn bwriadu agor bar-bwyty yn yr eiddo y soniwyd amdano ar y llawr cyntaf lle y byddwn yn gweini bwyd ac alcohol gydag alcohol yn hwyr y nos”.

(3) Cynigir yr oriau agor canlynol:

Dydd Sul i ddydd Iau: 12:00 tan 02:00

Ar ddydd Gwener ac ar ddydd Sadwrn: 12:00 tan 04:00

Noswyl y Nadolig a Nos Galan: 12:00 tan 06:00

(4) I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:
Dydd Sul i ddydd Iau: 12:00 tan 02:00
Ar ddydd Gwener ac ar ddydd Sadwrn: 12:00 tan 04:00
Noswyl y Nadolig a Nos Galan: 12:00 tan 06:00

2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do):
Dydd Sul i ddydd Iau: 12:00 tan 02:00
Ar ddydd Gwener ac ar ddydd Sadwrn: 12:00 tan 04:00
Noswyl y Nadolig a Nos Galan: 12:00 tan 06:00

3. Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do):
Dydd Sul i ddydd Iau: 23:00 tan 02:00
Ar ddydd Gwener ac ar ddydd Sadwrn: 23:00 tan 04:00
Noswyl y Nadolig a Nos Galan: 23:00 tan 05:00

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau y gofynnwyd amdanynt yn y sylwadau ysgrifenedig gan Heddlu De Cymru.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Anerchodd Rhys Morgan o Dîm Trwyddedu y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir y Pwyllgor. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr adeilad y tu fewn i Barth Effaith Gronnus Heol yr Eglwys Fair ac felly roedd tybiaeth amodol yn y polisi y câi'r cais ei wrthod. Fel y ceisiwyd amdano yn wreiddiol, byddai'r adeilad yn dod o dan y categori 'coch' fel bar. Fodd bynnag, mae'r ymgeiswyr wedi rhoi lliniariadau ar waith sy'n symud y cais tuag at y categori 'ambr' fel bar/bwyty.

Er mwyn i'r drwydded gael ei rhoi mae'r baich ar yr ymgeiswyr ddangos na fyddai'r adeilad yn cael effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu. Ystyriodd Rhys Morgan fod lefel manylion annigonol yn y cais i ddangos hyn.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod angen i geisiadau ar gyfer trwyddedau newydd o fewn y Parth Effaith Gronnus fod yn eithriadol ac nid oedd yn ystyried nad oedd yn ddigon bod yr adeilad yn cael ei reoli'n dda. At hynny, ni ddylai effaith gronnus fod yn gallu cael ei phriodoli i adeiladau unigol ac mae'n rhaid ei hystyried fel rhan o amgylchedd ehangach canol y ddinas.

Roedd hefyd yn arwyddocaol fod yr adeilad hwn yn agos at nifer o breswylfeydd.

Gofynnwyd i'r Is-Bwyllgor ystyried gwrthod y cais ar sail atal trosedd ac anrhefn ac er mwyn atal niwsans cyhoeddus.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Saiprasad Kamuni y cais ar ran yr ymgeiswyr. Dywedodd Mr Kamuni y ceisiodd y cais agor bar yn wreiddiol, ond ar ôl cwrdd â Heddlu De Cymru, cytunodd yr ymgeisydd i ddiwygio'r cais a byddai'n ceisio gweithredu fel bwyty/bar. Cafodd yr 18 amod y gofynnwyd amdanynt yn y sylwadau ysgrifenedig gan Heddlu De Cymru eu derbyn yn llwyr.

Ystyriodd Mr Kamuni fod y cais diwygiedig yn cynnwys amodau a oedd yn ddigon sylweddol i oresgyn y polisi effaith gronnus.

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth; ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Arweiniad Adran 182 a Datganiad Polisi

Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, bod yr Is-bwyllgor yn caniatáu'r cais, yn amodol ar amod 4 yn cael ei ddiwygio i ddarllen:

'Mae'n rhaid i gwsmeriaid sy'n yfed alcohol eistedd.'

3 : CAIS AM GRANT TRWYDDED EIDDO - HEAD OF STEAM, STRYD YR EGLWYS

Ymgeiswyr: Wedi'u cynrychioli gan Sarah Taylor, Poppleston Allen
Jim Bentley, Martin Toby, Mick Hill

Awdurdodau Cyfrifol: PC Rob Gunstone, PC Tim Davies, Sgt Justin Hardwick,
Heddlu De Cymru
Rhys Morgan, Trwyddedu Cyngor Caerdydd

Y Cais

Daeth cais am gael Trwydded Adeilad i law gan Camerons Brewery Limited ynglŷn â Head of Steam, 1-19 Church Street, Caerdydd.

Ymgeisiodd yr ymgeisydd am y canlynol:

(1) Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

1. Cyflenwi alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle.
2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf ffilmiau, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi'i recordio, perfformiadau dawns ac unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg (tu fewn).
3. Darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do)

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Bydd yr adeilad yn gweithredu fel Head of Steam sy'n gynnig cwrw crefft. Mae gwybodaeth *sommeliers* cwrw Head of Steam, wedi'i chyfuno ag angerdd eu cogydd am blasau'r byd a chynnyrch lleol, wedi llenwi eu bwydlenni â blasau cyffrous a chwrrw ysbrydoledig i fynd gyda'r bwyd. Bydd ystod eang o fwyd a diodydd ar gael. Hefyd mae'r brand yn adnabyddus oherwydd ei sesiynau cerddoriaeth acwstig fyw.

Bydd yr adeilad yn cynnwys ardal masnachu ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf gyda man eistedd allanol ar flaen yr adeilad, a gaiff ei ddefnyddio i gael bwyd a diodydd".

(3) Cynigir yr oriau agor canlynol:

Dydd Sul i ddydd Iau: 08:00 tan 01:30
Ar ddydd Gwener ac ar ddydd Sadwrn: 08:00 tan 02:30
Nos Galan: tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar 1 Ionawr
Awr ychwanegol ar ddechrau Amser Haf Prydain

(4) I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

1. Cynnig alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
Dydd Sul i ddydd Iau: 08:00 tan 01:00
Ar ddydd Gwener ac ar ddydd Sadwrn: 08:00 tan 02:00
Nos Galan: tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar 1 Ionawr
Awr ychwanegol ar ddechrau Amser Haf Prydain
2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf ffilmiau, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi'i recordio, perfformiadau dawns ac unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg (tu fewn):
Dydd Sul i ddydd Iau: 08:00 tan 01:00
Ar ddydd Gwener ac ar ddydd Sadwrn: 08:00 tan 02:00
Nos Galan: tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar 1 Ionawr
Awr ychwanegol ar ddechrau Amser Haf Prydain
3. Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (y tu mewn a'r tu allan):
Dydd Sul i ddydd Iau: 23:00 tan 01:00
Ar ddydd Gwener ac ar ddydd Sadwrn: 23:00 tan 02:00
Nos Galan: 23:00 tan 05:00
Awr ychwanegol ar ddechrau Amser Haf Prydain

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Anerchodd PC Rob Gunstone yr Is-bwyllgor. Dywedodd PC Guntoned fod gan Heddlu De Cymru wrthwynebiad gyfan gwbl i roi trwydded adeilad ar sail atal trosedd ac anhrefn ac atal niwsans i'r cyhoedd. Mae'r adeilad y tu fewn i'r ardal Polisi Effaith Gronnus ac mae tybiaeth amodol y câi unrhyw gais am gael trwydded newydd ei gwrthod.

Fodd bynnag, pe bai'r Is-bwyllgor yn bwriadu rhoi'r cais, byddai Heddlu De Cymru yn gofyn y câi nifer o amodau eu hatodi i'r drwydded. Dywedwyd wrth yr aelodau bod Heddlu De Cymru wedi cael trafodaethau gyda'r ymgeiswyr ynglŷn â'r amodau hyn a chafodd rhai amodau eu cytuno.

Atgoffwyd yr aelodau y cafodd y Polisi Effaith Gronnus ei gyflwyno er mwyn lleihau trosedd ac anhrefn a niwsans i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghanol y Ddinas. Ni anogir ceisiadau am drwyddedau adeilad newydd er mwyn helpu i sicrhau bod Canol y Ddinas yn ddiogel ac yn hyfyw. Ceisiodd y cais ddarparu adeilad a fyddai wedi'i arwain gan alcohol.

Dywedodd PC Gunstone fod gan Ganol y Ddinas 317 o fannau trwyddedig o fewn ardal o 0.5 milltir sgwâr a bod niferoedd o bobl dros 70,000 yn nodweddiadol ar y penwythnos. Mae Canol y Ddinas yn denu pobl leol ac ymwelwyr a thwristiaid. Ar ddiwrnodau pan fydd digwyddiadau mawr, gall nifer o bobl gynyddu i 125,000. Mae gan Church Street nifer fawr iawn o bobl yn ymweld a chofnodwyd lefel uchel o drosedd ac anhrefn yn yr ardal dros flynyddoedd lawer.

Cyflwynodd PC Gunstone ddata sy'n gysylltiedig â nifer y troseddau a gofnodwyd yn yr ardaloedd gan gynnwys y diwrnodau pan ddigwyddodd y troseddau hyn, yr amseroedd y gwnaethant ddigwydd, niferoedd y troseddau treisgar, ayyb. Atgoffwyd aelodau, er mwyn i drwydded adeilad gael ei rhoi, byddai'n rhaid i'r ymgeiswyr ddangos na fyddai eu busnes yn niweidiol i amcanion y drwydded. Wedyn cyfeiriodd

PC Gunstone ar ffotograffau o Church Street ac amlygodd agoswydd yr adeilad at nifer o adeiladau trwyddedig presennol yn Church Street.

Anerchodd Rhys Morgan yr Is-bwyllgor. Dywedwyd eto wrth yr aelodau bod yr aelod o fewn yr ardal Polisi Effaith Gronnus ac felly, roedd angen ystyried nifer yr adeiladau yn yr ardal. Mae'r ymgeiswyr wedi ceisio rhoi mesurau lliniaru ar waith er mwyn symud yr adeilad tuag at gategori math 'ambr' ar fwyty, ond ar hyn o bryd ystyriwyd ei fod oddeutu'r categorïau 'coch' ac 'ambr'. Er enghraifft, mae'r ymgeiswyr wedi cytuno i roi byrddau a chadeiriau ar 75% o ardal y llawr sydd ar gael ac maent wedi cytuno'n rhannol i ddarparu gwasanaeth gweinyddion.

Dywedodd Rhys Morgan ei fod yn fater i'r Is-bwyllgor ystyried a oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr yn ddigon i negyddu'r Polisi Effaith Gronnus a chefnogi'r amcanion trwyddedu.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Sarah Taylor y cais. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr adeilad yn Fwyty Harvester o'r blaen a bod ganddo drwydded adeilad eisoes.

Mae'r ymgeiswyr yn gweithredu 70 o leoliadau ledled y DU ac mae rhai lleoliadau mewn mannau heriol. Er enghraifft, yn Leeds a Newcastle, maent yn gweithredu mewn parthau polisi effaith gronnus. Mae'r brand yn un premiwm a gefnogwyr gan ddim gweithredu gwyach. Mae'r ymgeiswyr yn deall anghenion Caerdydd ac wedi ymrwymo i gyflyru'r adeilad hwn yn unol â hyn.

Gwahoddwyd Jim Bentley i roi trosolwg i'r Aelodau o gysyniad busnes. Dywedwyd wrth yr adeiladau bod y brand Head of Steam yn darparu cyfres o gwrw crefft a chwrrw casgen premiwm. Roedd y cwsmeriaid yn hŷn ac yn gyfoethocach ac nid oedd y prisiau a'r busnes yn eu hadeilad yn denu pobl iau. Roedd y *clientele* yn gymysgedd eclecticig o dwristiaid, teuluoedd a pharau cymysg ac mae'r lleoliadau hefyd yn gyfeillgar i gŵn.

Hefyd mae'r brand ynghlwm â'r economi leol a gwahoddir bragwyr lleol i arddangos eu cynnyrch. Yn ogystal mae pwyslais mawr ar gynnig bwyd o ansawdd uchel yn eu lleoliadau. Cynigir bwydlen sylweddol ac argymhellir 'cydweddu cwrw'. Nid oedd y brand yn cynnig yfed meintiau mawr yn gyflym.

Dywedodd Sarah Taylor fod yr ymgeiswyr yn hapus i gytuno bod 75% o'r ardal llawr yn fyrddau a seddau, oherwydd mai dyma beth y disgwylir ar gyfer y brand a dyma yw'r cynllun yn eu lleoliadau eraill. Gofynnwyd i'r Aelodau gyfeirio ar y pecyn gwybodaeth a gylchredwyd o'r blaen. Amlygodd Sarah Taylor y ffotograffau o leoliad Head of Steam arall a agorwyd yn ddiweddar yn Birmingham a hefyd cyfeiriodd ar y fwydlen bwydydd a diodydd.

Roedd y lleoliad yn Fwyty Harvester o'r blaen. Roedd Head of Steam eisiau mwy o le ar y llawr ac nid oedd yn bosibl gwneud hyn trwy cais am Fân Amrywiaeth. Felly mae trwydded adeilad newydd yn ofynnol. Rhoddodd Ms Taylor drosolwg o'r drwydded adeilad bresennol. Roedd yn bosibl y gallai'r drwydded bresennol gael ei throsglwyddo i weithredwr bar oherwydd nad oedd unrhyw amod am fwyty ar y drwydded. Ymgynghorodd yr ymgeiswyr â Heddlu De Cymru ac maent yn deall y pryderon. Awgrymwyd amodau, ac er eu bod yn cael eu trafod o hyd, cytunwyd

arnynt yn bennaf oherwydd bod parti yn credu bod angen i'r adeilad symud tuag at y categori ambr.

Dywedodd Sarah Taylor nad oedd y Polisi Effaith Gronnus yn absoliwt a gall yr ymgeiswyr ddangos y gallant weithredu'r adeilad hwn yn briodol. Gofynnwyd i'r aelwyd ystyried achos llys Brewdog pan benderfynodd y barnwr y gellid caniatáu busnes tebyg. Mae Head of Steam yn gweithredu mewn dinasoedd eraill heb drafferth. Maent yn buddsoddi tua £1 miliwn yng Nghaerdydd ac mae'n rhaid iddynt ddangos y gallant weithredu'n llwyddiannus. Roedd yr ymgeiswyr yn ystyried y ffigurau troseddau a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru a byddant yn cyflwyno mesurau a fydd yn gwrthwynebu unrhyw bryderon.

Awgrymwyd y byddai rhoi'r drwydded adeilad yn cefnogi'r amcanion trwyddedu oherwydd y byddai'r adeilad yn gweithredu o dan set dynnach o amodau am lai o oriau nag y caniateir ar hyn o bryd. Hefyd cyfeiriodd Sarah Taylor at Gynllun Datblygu Lleol y Cyngor sy'n sôn am ddod â hamdden, twristiaeth a chyflogaeth i mewn i'r Ddinas. Byddai busnes yr Head of Steam yn cefnogi hynny.

Fel y soniwyd o'r blaen, cafodd swit o amodau eu trafod yn ystod ymgynghori â Heddlu De Cymru a Thrwyddedu Cyngor Caerdydd. Nid oedd unrhyw sylwadau lechyd Amgylcheddol i'w hystyried. Mae Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor yn annog sefydliadau a weithredir yn dda ac yn wahanol i'r arfer a byddai'r amodau a gytunwyd gyda Heddlu De Cymru yn caniatáu i Head of Steam wneud hynny'n llwyddiannus.

Dywedodd Sarah Taylor fod yr amodau canlynol wedi'u cytuno. Mae rhywfaint o fân newidiadau i'r rhai sy'n gynwysedig yn y sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

1. Gwerthu Alcohol i'w yfed yn yr adeilad a'r tu allan iddo dydd Llun i ddydd Sul 08:00am tan 00:30 (amseriadau ansafonol ychwanegol sef awr ychwanegol i'r amseroedd safonol ac ansafonol ar y diwrnod pan fydd Amser Haf Prydain yn dechrau ac o ddiwedd yr oriau a ganiateir ar Nos Galan i ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan);
2. Adloniant a Reoleiddir ar ffurf ffilmiau, Cerddoriaeth Fyw, Cerddoriaeth wedi'i Recordio, Perfformiadau Dawns, unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg i gerddoriaeth fyw wedi'i recordio neu berfformiadau dawns o 08:00am tan 01:00am y bore canlynol o ddydd Llun i ddydd Sul gydag amseriadau ansafonol ychwanegol fel y'i manylir ar gyfer Gwerthu Alcohol;
3. Lluniaeth Hwyr y Nos (dan do ac awyr agored) o 23.00 tan 01:00 o ddydd Llun i ddydd Sul gydag amseriadau ansafonol ychwanegol fel y'i manylir ar gyfer Gwerthu Alcohol; ac
4. Oriau agor yr adeilad o 08:00am tan 01:00am y bore canlynol gydag amseriadau ansafonol ychwanegol fel y'i datgenir ar gyfer gwerthu alcohol.
5. System CCTV i safon yn sgil cytundeb, i'w chymeradwyo gan Heddlu De Cymru, i'w cynnal a defnyddio ar bob adeg y bydd y safle yn agored i'r cyhoedd. Bydd y system yn cadw golwg ar bob ardal lle y mae gan y cyhoedd fynediad ato (ac eithrio tai bach) gan gynnwys pob mynedfa ac allanfa cyhoeddus. Bydd

yn cadw golwg ar flaen allanol yr adeilad. Hefyd cedwir golwg ar unrhyw ardal allanol a ddefnyddir gan gwsmeriaid. Caiff delweddau eu cadw am o leiaf 31 diwrnod. Bydd y delweddau yn cael eu cyflwyno i aelod o staff yr Heddlu mewn fformat sy'n ei gwneud yn bosibl eu gweld ar unwaith yn dilyn cais, pan fo'r safle yn agored i'r cyhoedd ac ar bob adeg arall cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, (gan ddibynnu ar Ddeddfwriaeth Diogelu Data). Bydd digon o staff hyfforddedig i hwyluso'r uchod. Bydd arwyddion yn cael eu harddangos yn amlwg ar y safle er mwyn rhoi gwybod bod Teledu Cylch Cyfyng ar waith.

6. Bydd o leiaf dau gamera a wisgir ar y corff yn cael eu defnyddio yn yr adeilad pryd bynnag y bydd staff y drysau ar ddyletswydd. Caiff y camerau eu defnyddio yn unol ag Arweiniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd y dyfeisiau a wisgir ar y corff yn gallu recordio fideo (delweddau) a sain. Bydd y delweddau yn cael eu storio am o leiaf 31 diwrnod a chânt eu cyflwyno i aelod o staff yr Heddlu wrth iddo ddangos prawf boddhaol o bwy ydyw, mewn fformat sy'n ei gwneud yn bosibl eu gweld ar unwaith yn dilyn cais, pan fo'r safle yn agored i'r cyhoedd ac ar bob adeg arall cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, gan ddibynnu ar Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Bydd digon o staff hyfforddedig i hwyluso'r uchod;
7. Caiff cofrestr o oruchwylwyr y drysau ei chadw yn yr adeilad. Bydd y Gofrestr yn dangos enw llawn a rhif cofrestru SIA pob goruchwylwr drws, gan ddatgan amserau dechrau a gorffen y ddyletswydd gan bob goruchwylwr drws. Cedwir y Gofrestr gan y DPS am o leiaf 12 mis a sicrhau ei bod ar gael i aelod o staff yr Heddlu neu gynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol ar gais;
8. Caiff goruchwylwyr drws sydd wedi'u cofrestru gan yr SIA eu rhoi ar ddyletswydd ar gymhareb o 1:100 neu ran ohono ar ddydd Gwener, dydd Sadwrn ac ar unrhyw ddydd Sul cyn Ŵyl Banc o 21.00 tan amser cau. Bydd o leiaf dau oruchwylwr drws ar unrhyw adeg;
9. Ar bob adeg arall, caiff y staff drws sydd wedi'u cofrestru gan yr SIA eu defnyddio yn yr adeilad yn unol ag asesiad risg ysgrifenedig i'w wneud gan y DPS. Mae'n rhaid cadw copi o'r asesiad risg am 12 mis a sicrhau ei fod ar gael i'r Heddlu ar unwaith ar gais;
10. Caiff o leiaf dau oruchwylwr drws sydd wedi'u cofrestru gan yr SIA eu defnyddio yn yr adeilad pryd bynnag y bydd digwyddiad a gynllunnir o flaen llaw (pan fydd alcohol ar gael i'r sawl sy'n bresennol) yn cael ei gynnal a phan ddisgwylir 75 neu fwy o bobl. Os bydd y niferoedd sy'n bresennol yn fwy na 100 o bosibl, darperir staff SIA ychwanegol eu darparu ar gymhareb o 1:100 neu ran ohono. Ystyrir unrhyw staff SIA a ddefnyddir ar gyfer digwyddiad o'r fath eu hystyried fel rhywbeth ychwanegol i unrhyw ofyniad arall a gaiff ei sbarduno;
11. Ar ddiwrnodau digwyddiadau mawr, caiff goruchwylwyr drws gofrestrir gan yr SIA eu defnyddio yn yr adeilad o 3 awr o leiaf cyn dechrau'r digwyddiad (y datganwyd y digwyddiad mawr ar ei gyfer) ar gymhareb o 1:100 neu ran ohono gydag o leiaf dau ar unrhyw adeg. Caiff tabardau neu siacedi gwelededd uchel eu gwisgo gan oruchwylwyr drws ar ddiwrnodau digwyddiadau mawr;

12. Pan gaiff staff y drysau eu defnyddio yn yr adeilad, am gyfnod am hyd at 30 munud ar ôl cau, mae'n rhaid i'r adeiladau ddarparu dau oruchwyliwr drws sy'n gofrestredig gyda SIA, mewn tabardau neu siacedi gwelededd uchel, y tu allan i'r lleoliad i helpu gyda gwasgaru cwsmeriaid yn ddiogel o flaen yr adeilad. Bydd y goruchwylwyr drws hyn yn gwisgo camerâu corff bob amser pan fyddant y tu allan i'r adeilad ar y diben hwn;
13. Bydd pob Goruchwylwyr Drws yn cario radio mewnol er mwyn caniatáu cyfathrebu rhyngddynt a'r rheolwyr;
14. Pan gaiff goruchwylwyr drws eu defnyddio yn yr adeilad, bydd yr adeilad yn defnyddio dyfais cyfrif electronig (neu'n darparu dau beiriant cyfrif cliciwr) er mwyn monitro nifer y cwsmeriaid sy'n mynd i mewn ac yn gadael yr adeilad;
15. Ar ddiwrnodau a ddatgenir fel diwrnodau digwyddiadau mawr gan Heddlu De Cymru, caiff cynhwysyddion nad ydynt yn rhai gwydr eu defnyddio o amser agor tan amser cau. Ni chaiff unrhyw alcohol ei ddarparu mewn gwydr ar y fath ddiwrnodau;
16. Bydd yr adeilad yn gweithredu Cynllun Diogel Rhag Cyffuriau. Caiff Cofrestr bwrpasol ei chadw a chaiff unrhyw gyffuriau a roddir yn y saff cyffuriau eu cofnodi ynddi. Caiff y Gofrestr hon ei chroesgyfeirio â'r Llyfr Digwyddiadau;
17. Bob amser pan fydd yn agored i'r cyhoedd, bydd yr adeilad yn gweithredu system radio a gaiff ei monitro gan yr Awdurdod Lleol a Heddlu De Cymru;
18. Caiff yfed alcohol a werthir mewn cynwysyddion agored y tu allan i'r adeilad ei gyfyngu i ardal allanol a ddynodir fel y'i hawdurdodir gan Adran Briffyrdd Cyngor Dinas Caerdydd drwy drwydded palmant. Bydd cwsmeriaid sy'n defnyddio'r ardal hon i fwyta ac yfed bwyd a diod a bydd gwasanaeth i'r ardal hon gan wasanaeth gweinydd yn unig;
19. Ni fydd unrhyw yfed y tu allan ar ôl 23:00 bob dydd;
20. Bydd bwyd ar gael yn yr adeilad pan fydd yn agor ar gyfer gweithgarwch y gellir ei drwyddedu, tan 20 munud cyn i'r adeilad gau;
21. Caiff y toiledau eu gwirio'n aml, ond yn rheolaidd, bob awr. Bydd cofnod o wiriadau ar y toiledau; caiff y cofnod ei gadw am o leiaf 31 diwrnod a bydd ar gael i gynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol ar gais;
22. Caiff unrhyw ardaloedd allanol a ddefnyddir gan gwsmeriaid a nifer y cwsmeriaid hynny eu rheoli yn y fath ffordd nad yw'n rhwystro cerddwyr yn mynd heibio neu'n aflonyddu busnesau eraill gerllaw;
23. Caiff log digwyddiadau ei gadw yn yr adeilad. Bydd pob cofnod a wneir yn nodi diwrnod, dyddiad ac amser y gwnaed pob adroddiad a bydd yn cofnodi'r canlynol. Bydd y DPS yn gwneud eu gorau glas i sicrhau y caiff pob digwyddiad ei logio ar ddiwrnod y digwyddiad:
 - i. Caiff pob trosedd ei adrodd i'r lleoliad;

- ii. Pob tro y caiff cwsmer ei fwrw allan, gyda manylion yr unigolyn/unigolion os y gwyddys;
- iii. Pob digwyddiad o anhrefn y mae'r adeilad yn ymwybodol ohonynt;
- iv. Cipio cyffuriau neu arfau ymosodol; a
- v. Phob ymweliad gan Awdurdod Cyfrifol neu wasanaeth brys.

Bydd y Log ar gael i'r Heddlu neu i gynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol arall ar gais. Caiff y Log ei gadw am o leiaf 12 mis.

- 24. Bydd y staff yn derbyn hyfforddiant cychwynnol mewn perthynas â manwerthu alcohol yn gyfrifol cyn dechrau gweithio yn yr adeilad. Bydd system barhaus o hyfforddiant adfywio blynyddol ar waith a chedwir cofnodion gan y DPS o'r fath hyfforddiant am gyfnod o 12 mis o leiaf;
- 25. Bydd yr adeilad yn gweithredu system i gadw cofnod o wrthodiadau i weini alcohol;
- 26. Bydd y Goruchwyliwr Dynodedig yr Adeilad (DPS) yn cymryd rhan yn Fforwm Trwyddedigion Caerdydd a bydd yn mynychu cyfarfodydd yn bersonol neu drwy anfon dirprwy addas;
- 27. Ni chaniateir i unrhyw un o dan 18 oed yn yr adeilad [tan?] ar ôl 22:00 bob dydd heblaw ei fod yn mynychu digwyddiad a gynlluniwyd ymlaen llaw ac yng nghwmni oedolyn;
- 28. Bydd prynu diodydd alcoholig ond yn bosibl o farrau statig. Ni fydd unrhyw bersonau symudol o unrhyw fath yn gwerthu alcohol;
- 29. Bydd arwyddion priodol yn yr adeilad yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel;
- 30. Bydd o leiaf 75% o'r ardal gyhoeddus yn yr adeilad yn cynnwys byrddau a chadeiriau;
- 31. Caiff pob pryd o fwyd ei fwyta wrth fyrddau gan ddefnyddio llestri nad yw'n dafladwy;
- 32. Ni fydd unrhyw ddawnsio ar y bar gan staff neu gwsmeriaid; a
- 33. Ni fydd unrhyw uchelseinyddion sain allanol ar yr adeilad.

Gwahoddwyd yr aelodau i ganiatáu'r cais.

Gan ymateb i gwestiwn gan Justin Hardwicke, cadarnhaodd Jim Bentley, mewn dinasoedd eraill cynigir bwyd tan o leiaf 2100. Yng Nghaerdydd byddai bwyd yn cael ei gynnig tan 20 munud cyn amser cau. Sylwodd Sarah Taylor nad oedd Head of Steam yn fwyty, ond yn far sy'n cynnig bwyd. Nid yw dwy ddinas yr un peth ac yng Nghaerdydd mae'n bosibl na fydd yr hyn sy'n digwydd mewn dinasoedd eraill yn briodol. Yn y pen draw, nid yw Head of Steam yn achosi problemau ac ni fydd unrhyw adolygiadau o drwyddedau adeilad.

Crynhoi

Gwahoddwyd pob parti i grynhoi.

Cadwodd Heddlu De Cymru eu gwrthwynebiad a byddent yn gofyn, pe byddai'r Is-bwyllgor yn bwriadu caniatáu'r cais, dylid cymhwyso'r amodau y cytunir arnynt.

Atgoffodd Rhys Morgan yr Aelodau fod angen i'r ymgeiswyr sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Dywedodd Sarah Taylor fod y gweithredwr yn darparu cynnig o'r radd flaenaf i *clientele* deallus ac awgrymodd fod yr ymgeisydd yn cefnogi'r amcanion trwyddedu.

PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm